

CYFARFOD: **Cyd-Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd**
DYDDIAD: **25 Mai 2023**
PWNC: **Cyfansoddiad Cyd Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd**
AWDUR: **Iwan Evans Swyddog Monitro**

PENDERFYNIAD A GEISIR:

- Mabwysiadu y canlynol i'w cynnwys yn y Cyfansoddiad;**
 - Côd Ymddygiad Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig**
 - Cylch Gorchwyl Is Bwyllgor Safonau**
 - Rheoliadau Cytundebau a Materion Cyfreithiol**
 - Rheolau Gweithdrefn Contractau**
- Dirprwyo hawl i'w Swyddog Monitro wneud newidiadau golygyddol i'r Rheolau Sefydlog ar gyfer eu cyhoeddi.**

1. RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

Mae Reoliadau Cyd Bwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Cymru) 2022 y bydd gofyn i CBC baratoi a chyhoeddi Cyfansoddiad.

Bwriad yr adroddiad yma yw Mabwysiadu elfennau pellach o'r Cyfansoddiad er creu dogfen gyflawn maes o law.

2. CEFNDIR

Mae gofyn statudol bellach drwy newidiadau a wnaethpwyd i Deddf Llywodraeth Leol 2000 fod y Cyd Bwyllgor Corfforedig yn yr un modd a'r Cynghorau Cyfansoddol yn gorfod mabwysiadu a chyhoeddi Cyfansoddiad.

Yn ôl yr arweiniad statudol ;

"Rhaid cynnwys copi o reolau sefydlog y Cyd-bwyllgor Corfforedig, copi o gôd ymddygiad y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac unrhyw wybodaeth y mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ystyried yn briodol. Gall y cyfansoddiad hefyd ystyried y materion a nodir yn y Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig gan gynnwys, er enghraifft, yr Atodlen i'r Rheoliadau Sefydlu" (Cyd-bwyllgorau Corfforedig: Canllawiau Statudol)

Ystyrir y dylai'r Cyfansoddiad gynnwys y materion canlynol:

1. PWRPAS, DIFFINIADAU A CHYNNAL	I'w paratoi
2. MYEDIAD I WYBODAETH A CHYFRANU AT WAITH Y CBC	I'w paratoi
3. RHEOLAU SEFYDLOG CBC	Wedi eu mabwysiadu
4. RHEOLAU SEFYDLOG IS BWYLLGORAU	Wedi eu mabwysiadu
5. IS BWYLLGORAU	Wedi eu mabwysiadu ac eithrio Safonau sydd yn yr adroddiad
6. SWYDDOGION	I'w paratoi
7. CYTUNDEBAU A MATERION CYFREITHIOL	Rhan o'r adroddiad
8. CYNLLYN DIRPRWYO	I'w paratoi
9. RHEOLIADU ARIANNOL	I'w paratoi
10. RHEOLIADAU SEFYLDOG CAFFAEL	Rhan o'r adroddiad
11. COD YMDDYGIAD AELODAU	Ffurf statudol ac yn Rhan o'r adroddiad
12. PROTOCOL AELODAU SWYDDOGION	I'w paratoi mewn ymgynghoriad a'r Is Bwyllgor Safonau
13. CHWYTHU'R CHWIBAN	I'w paratoi mewn ymgynghoriad a'r Is Bwyllgor Safonau

Mae'r argymhelliad i fabwysiadu y canlynol gyda adroddiadau pellach ar y gweddill i'w darparu ar gyfer cyfarfod Gorffennaf. :

(a) Côt Ymddygiad Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig.

Mae hwn yn dilyn y ffurf statudol mandadol ac yn adlewyrchu y Côt sydd wedi ei fabwysiadu ar draws yr awdurdodau partner. Er y gellir ychwanegu ato nid yw hyn yn arferol. Fodd bynnag gall hyn gael ei ystyried os cyfyd angen gan yr Is Bwyllgor Safonau all wneud argymhellion. Fodd bynnag gyda cyfethol aelodau yn dechrau bellach mae angen sicrhau fod trefniadau Côt Ymddygiad wedi eu mabwysiadu.

(b) Cylch Gorchwyl Is Bwyllgor Safonau

Mae hyn yn awgrymu ar ffurf Is Bwyllgor Safonau. Hyd yn hyn mae sefyllfa y CBC o safbwynt y Rheoliadau Pwyllgor Safonau yn amwys. Fodd bynnag yn absenoldeb arweiniad ar hysbysebu er enghraifft awgrymir ffurf alla gyfarch y gofyn. Mewn realiti ni ystyrir y bydd yr Is Bwyllgor Safonau yn destun llawer o waith yn y cychwyn ac mae tynnu ar aelodau profiadol Pwyllgorau y cyrff cyfansoddol yn cynrychioli trefn fwy ymarferol o gynnal yr Is Bwyllgor gan bwysu ar drefniadau anwytho a hyfforddi y pwyllgorau Safonau rhanbarthol. Rwyf wedi ymgynghori gyda y Swyddogion Monitro rhanbarthol ar y bwriad yma.

(c) Rheoliadau Cytundebau a Materion Cyfreithiol

Gosod trefniadau gweinyddol eglur mewn lle ar gyfer materion cytundebol. Achosion llys a hawl arwyddo.

(d) Rheolau Gweithdrefn Contractau

Wrth symud i ddechrau gweithredu mae'n allweddol fod trefniadau caffael y CBC yn eglur. Awgrymir mabwysiadu templed Gwynedd sydd newydd ei ddiweddarau ac yn cynrychioli yr un rheolau a weithredir gan y Swyddfa Portffolio.

SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro

Awdur yr Adroddiad

Y Pennaeth Cyllid

“Mae datblygu a mabwysiadu Cyfansoddiad briodol yn gonglfaen allweddol o drefniadau llywodraethu cadarn, ac mae'r elfennau sydd wedi cael eu cynnwys yn yr atodiadau yn gamau cychwynol pwysig yn y broses yma. Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir.”

Atodiadau

- 1.Côd Ymddygiad Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig
- 2.Cylch Gorchwyl Is Bwyllgor Safonau
- 3.Rheoliadau Cytundebau a Materion Cyfreithiol
- 4.Rheolau Gweithdrefn Contractau